



# CIVIL NUCLEAR CONSTABULARY

Meri Huws  
Comisiynydd Y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5 – 7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd  
CF10 1AT

20 Ionawr 2015

## Capability Directorate

Civil Nuclear Constabulary  
Culham Science Centre  
Abingdon  
Oxfordshire  
OX14 3DB

Tel: 01235 466544

Fax: 01235 466279

Website: <http://www.gov.uk/cnc>

Annwyl Ms Huws,

## YMATEB COMISIYNYDD Y GYMRAEG I ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL YR AWDURDOD HEDDLU SIFIL NIWCLEAR 2013-14

Diolch i chi am eich adroddiad dyddiedig 31 Rhagfyr 2014 yn cynnwys eich ymateb ffurfiol i Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear (AHSN).

Yn yr ymateb ffurfiol a baratowyd, yr oedd 2 faes gweithredu yr oedd angen ymateb iddynt erbyn 27 Ionawr 2015. Isod gellir canfod ein hymateb i'r meysydd hyn:

- *“A fuasech cystal â darparu rhagor o wybodaeth am aelodau eich tîm [i reoli Cynllun yr Iaith Gymraeg] a'i faes llafur.”*

Mae gan dîm rheoli'r Iaith Gymraeg bedwar aelod. Arweinir y tîm rheoli gan Swyddog Amryfaliaeth, a leolir yn y Pencadlys yn Culham, ac mae'n cydweithio â Chomandyr Uned Weithredol Wylfa. Mae gan y ddwy swyddogaeth gefnogaeth leol; mae'r Rheolwr Sicrhau Gwybodaeth yn cefnogi'r Swyddog Amryfaliaeth a Gweinyddwr Uned Wylfa yn cefnogi'r Comandyr yno.

Mae'r tîm yn gyfrifol am ymagweddiad yr Heddlu Sifil Niwclear (HSN) tuag at drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes yng Nghymru ar ran yr AHSN. Mae'r ffin busnes rhwng ymagweddiad corfforaethol (cyfarfodydd cyhoeddus a gwybodaeth gorfforaethol) ac ymagweddiad lleol (gogwydd swyddogion heddlu a staff heddlu, recriwtio a chyfathrebu â chyfranddeiliaid,).

- *“A fuasech cystal â darparu gwybodaeth bellach yn egluro pam y bu oedi pellach [cyn ailgychwyn y cwrs Gymraeg ar ôl gorffen recriwtio].”*

Cafodd safbwynt yr HSN ei adolygu fesul safle mewn partneriaeth â chwmnïau trwydded safle, y Swyddfa ar gyfer Rheoleiddio Niwclear, yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd a'r Awdurdod Datgomisynu Niwclear. Mae'r datblygiadau hyn wedi canolbwyntio'n bennaf ar fodel gweithredu sy'n gwneud y gorau posibl o allu ymateb yr HSN ac yn cydweddu â gwelliannau diogelwch safle.

Yr oedd yr adolygiad cymhleth hwn yn ymgorffori diogelwch ffisegol yn ogystal â'r strategaeth patrôl ar gyfer Wylfa. Er y llwyddwyd i recriwtio swyddogion o fewn y raddfa amser a ragwelwyd, gohirwyd defnyddio swyddogion fel rhan o strategaeth patrolio lleol gytunedig hyd nes y byddai newidiadau i ddiogelwch ffisegol Wylfa wedi eu gweithredu a'u profi. Erbyn hyn, ar ôl cael canlyniadau profi'r safle, derbyniwyd yr argymhellion a lansiwyd strategaeth patrolio ddiwygiedig. Yr oedd cyflawni'r garreg filltir hon yna'n caniatáu i baratodau ar gyfer hyfforddiant yn y Gymraeg fynd rhagddynt gan y gellid cadarnháu'r nifer o swyddogion ar gael. Y cynllun yw y bydd hyfforddiant yn digwydd yn ystod 4ydd chwarter blwyddyn ariannol 2014-15.

Yn ogystal, yn yr ymateb ffurfiol a baratowyd yr oedd y sylw pellach hwn:

- *“A fuasech cystal â rhannu strategaeth [laith Gymraeg yr HSN] gyda'r Comisiynydd unwaith y mae wedi ei chwblhau.”*

Mae tîm rheoli'r Gymraeg wedi bod yn gweithio gyda Chymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru (ACPO) i ddatblygu Strategaeth y Gymraeg ar y cyd. Cafodd y strategaeth hon ei chymeradwyo gan Bwyllgor ACPO Cymru ar 22 Rhagfyr 2014.

Diben y strategaeth yw cefnogi heddluoedd Cymru (gan gynnwys yr Heddlu Cludiant Prydeinig a'r HSN pan yn gweithredu yng Nghymru) i fabwysiadu cyfres o amcanion strategol fel isafswm safonau cyffredin ar gyfer defnyddio Gymraeg a Saesneg.

Bydd y strategaeth yn dod yn sail i Strategaeth Gymraeg arfaethedig yr HSN. Bydd Tîm Rheoli'r Gymraeg yn datblygu'r strategaeth hon yn ystod 2015 ac yn fwy na balch i'w rhannu gyda chi wrth iddi ddatblygu'n gynig ar gyfer cynnal mentrau Gymraeg yr HSN dros yr cyfnod y bydd Uned Plismona Gweithredol Wylfa yn gorffen gweithredu'n lleol dros dro.

Edrychaf ymlaen at ddatblygu'r meysydd hyn fel rhan o'n hymrwymiad i'n cyfrifoldebau Gymraeg a gobeithio bod y deilliannau hyn yn cael eich sêl bendith.

Yr eiddoch yn gywir,

**Martin Root**

Swyddog Sicrhau Gwybodaeth

CC: Prif Weithredwr/ Prif Gwnstabl Michael Griffiths